Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rheoliadau Adeiladu (Cymru)

# Cylchlythyr

| Rhif y Cylchlythyr: | WGC 003/2020 | Dyddiad cyhoeddi: | 29 01 2020 |
|---|---|---|---|

| Statws: | Er gwybodaeth |
|---|---|
| Teitl: | Diwygiadau i Reoliadau Adeiladu a Dogfennau Cymeradwy i Gymru |

| Cyhoeddwyd gan: |
|---|
| François Samuel: Pennaeth Rheoliadau Adeiladu |

| Cyfeiriwyd at: | Anfonwch ymlaen at: |
|---|---|
| Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Cymdeithas yr Arolygwyr Cymeradwy Corfforaethol<br>Cyngor y Diwydiant Adeiladu<br>Fforwm Personau Cymwys | Swyddogion Rheoli Adeiladu'r Awdurdodau Lleol<br>Aelodau Cynulliad |

| Crynodeb: |
|---|
| Diben y cylchlythyr hwn yw tynnu sylw at ddiwygiadau i Reoliadau Adeiladu, i Ddogfen Gymeradwy B (Diogelwch Tân), Cyfrolau 1 a 2, ac i Ddogfen Gymeradwy 7 (Crefftwaith a Deunyddiau). |

| I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: | |
|---|---|
| Colin Blick - Rheoliadau Adeiladu<br>Swyddfeydd Llywodraeth Cymru<br>Merthyr Tudful<br>CF48 1UZ | Llinell Uniongyrchol: 03000 628144<br>E-bost: enquiries.brconstruction@wales.gov<br>Gwefan:http://gov.wales/topics/planning/buildingregs/ |

124

©HawlfraintyGoron2016WG32

**Cylchlythyr**

**Deddf Adeiladu 1984**

**Rheoliadau Adeiladu 2010**

- Diwygiadau i reoliadau 2 a 4 i 7 sy'n ymwneud â deunyddiau sydd yn y wal allanol neu mewn atodyn penodedig i adeiladau penodol;
- Diwygiadau i Ddogfen Gymeradwy B (Diogelwch Tân) Cyfrolau 1 a 2;
- Diwygiadau i Ddogfen Gymeradwy 7 (Crefftwaith a Deunyddiau).

**Cyflwyniad**

1. Fe'm cyfarwyddir gan Weinidogion Cymru i dynnu'ch sylw at y ffaith bod Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2019 (OS 2019/1499 (Cy.275) ("y Rheoliadau Diwygio 2019"), sy'n gwneud diwygiadau i Reoliadau Adeiladu 2010 (OS 2010/2214), wedi'u cyhoeddi. Mae'r diwygiadau hynny'n dod i rym o 13 Ionawr 2020 ymlaen (yn ddarostyngedig i'r ddarpariaeth drosiannol a amlinellir isod).

2. Fe'm cyfarwyddir hefyd gan Weinidogion Cymru i dynnu'ch sylw at y ffaith bod slip diwygio wedi'i gyhoeddi ar gyfer Dogfen Gymeradwy B (Diogelwch Tân) Cyfrolau 1 a 2, ac i Ddogfen Gymeradwy 7 (Deunyddiau a chrefftwaith).

3. Er eglurder, mae'r Cylchlythyr hwn yn disodli Cylchlythyr 004/2019 ac mae Cylchlythyr 004/2019 yn cael ei ganslo.

4. Yn unol ag adran 14(7) o Ddeddf Adeiladu 1984, cafodd y Rheoliadau diwygio eu gwneud ar ôl ymgynghori â Phwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu.

5. Diben y Cylchlythyr hwn yw:

   - tynnu sylw at y diwygiadau a ganlyn ac esbonio'r newidiadau y maent yn eu gwneud i Reoliadau Adeiladu 2010;
   - cyflwyno rhagor o ofynion yn rheoliad 7 (Deunyddiau a chrefftwaith) o Reoliadau Adeiladu 2010 mewn perthynas ag adeiladau penodol;
   - cyflwyno categori ychwanegol o newid defnydd sylweddol yn rheoliad 5 (Ystyr newid defnydd sylweddol) o Reoliadau Adeiladu 2010 a gofynion o ran newid defnydd sylweddol o'r fath yn rheoliad 6 (Gofynion o ran newid defnydd sylweddol) o Reoliadau 2010;

- cyflwyno diffiniadau newydd o “wal allanol” ac “atodyn penodedig” yn rheoliad 2 (dehongli) o Reoliadau Adeiladu 2010;
- tynnu sylw at y diwygiadau a wnaed i Ddogfen Gymeradwy B (Diogelwch Tân) Cyfrol 1 – Tai Annedd, i Ddogfen Gymeradwy B (Diogelwch Tân) Cyfrol 2 – Adeiladau ac eithrio tai annedd, ac i Ddogfen Gymeradwy 7 (Deunyddiau a chrefftwaith);
- hysbysu bod dogfennau sy’n rhoi arweiniad ymarferol mewn perthynas â Rheoliadau Adeiladu 2010 (Dogfennau Cymeradwy) wedi’u cymeradwyo.

6. Nid yw'r Cylchlythyr hwn yn rhoi cyngor ar y gofynion technegol yn Rheoliadau Adeiladu 2010, oherwydd mai yn y Dogfennau Cymeradwy yr ymdrinnir â'r materion hynny.

7. Mae **Atodiad A** i'r Cylchlythyr hwn yn nodi mewn tabl yr holl newidiadau a gafodd eu gwneud i Reoliadau Adeiladu 2010 gan Reoliadau Diwygio 2019.

8. Ceir hysbysiad cymeradwyo yn **Atodiad B** i’r Cylchlythyr hwn ar gyfer y Dogfennau Cymeradwy perthnasol a’r diwygiadau a wnaed iddynt.

**Cwmpas**

9. Dim ond i adeiladau ac i waith adeiladu yng Nghymru y mae'r holl newidiadau a wnaed i'r Rheoliadau Adeiladu ac i'r Dogfennau Cymeradwy yn gymwys.

**DIWYGIADAU I REOLIAD 7 O REOLIADAU ADEILADU 2010 – DEUNYDDIAU A CHREFFTWAITH**

10. Mae rheoliad diwygiedig 7(2) yn pennu gofynion mewn perthynas â waliau allanol ac atodynnau penodedig.

11. Mae rheoliad diwygiedig 7(2) yn gymwys i unrhyw adeilad sydd â llawr o leiaf 18m uwchlaw lefel y ddaear ac sy'n cynnwys un neu fwy o anheddau; sefydliad; neu ystafell at ddibenion preswyl (ac eithrio unrhyw ystafell mewn hostel, gwesty neu dŷ preswyl). Mae hyn yn cynnwys llety i fyfyrwyr, cartrefi gofal, tai gwarchod, ysbytai ac ystafelloedd cysgu mewn ysgolion preswyl.

12. Mae rheoliad diwygiedig 7(2) yn ei gwneud yn ofynnol i’r holl ddeunyddiau sy’n dod yn rhan o wal allanol neu atodyn penodedig

gyrraedd o leiaf Ddosbarth Ewropeaidd A2-s1, d0 neu Ddosbarth A1 o'u categoreiddio yn unol â BS EN 13501- 1:2018. Ni ellir barnu bod deunyddiau â hylosgedd cyfyngedig wedi bodloni'r gofyniad drwy ddefnyddio ffordd arall o gategoreiddio.

13. Mae rheoliad diwygiedig 7(3) yn darparu ar gyfer esemptio mathau penodol o gydrannau sydd i'w gweld mewn waliau allanol ac mewn atodynnau penodedig.

**DIWYGIADAU I REOLIADAU 5 A 6 O REOLIADAU ADEILADU 2010 – NEWID DEFNYDD SYLWEDDOL**

14. Mae rheoliadau diwygiedig 5 a 6 yn darparu, pan fo'r defnydd a wneir o adeilad yn cael ei newid fel y bo'r adeilad hwnnw'n dod yn adeilad a ddisgrifir yn rheoliad 7(4)(a), bod yn rhaid ymchwilio i sut yr adeiladwyd y wal allanol, ac atodynnau penodedig a, lle bo angen, rhaid gwneud gwaith i sicrhau nad ydynt ond yn cynnwys deunyddiau sy'n cyrraedd o leiaf Ddosbarth Ewropeaidd A2-s1, d0 neu Ddosbarth A1. Yn yr un modd, mae'r esemptiad yn rheoliad 7(3) yn darparu esemptiad ar gyfer cydrannau penodol sydd i'w cael mewn waliau allanol ac atodynnau penodedig.

**DIFFINIADAU NEWYDD YN RHEOLIAD 2 O REOLIADAU ADEILADU 2010**

15. Ychwanegwyd diffiniadau o wal allanol ac atodyn penodedig at y diffiniadau yn rheoliad 2 ac mae'r diffiniadau hynny'n cynnwys unrhyw rannau o'r wal allanol yn ogystal ag atodynnau penodedig a ychwanegwyd at y wal allanol (balconïau a phaneli solar).

**DOGFENNAU CYMERADWY**

16. Mae Dogfennau Cymeradwy yn darparu canllawiau statudol ar gymhwyso'r Rheoliadau Adeiladu ac ar gydymffurfio â nhw. Mae

- Dogfen Gymeradwy B (Diogelwch Tân) Cyfrol 1: Tai annedd (argraffiad 2006 sy'n cynnwys diwygiadau 2010 a 2016) fel y'i diwygiwyd yn 2013;
- Dogfen Gymeradwy B (Diogelwch Tân) Cyfrol 2: Adeiladau ac eithrio tai annedd (argraffiad 2016 sy'n cynnwys diwygiadau 2010, 2013 a 2016) fel y'i diwygiwyd yn 2017; a
- Dogfen Gymeradwy 7

yn cael eu hailgymeradwyo a'u diwygio ymhellach yn unol â'r hysbysiad yn Atodiad B er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i Reoliadau 2010 gan y Rheoliadau Diwygio.

## TREFNIADAU PONTIO

17. Nid yw'r diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Diwygio 2019 yn gymwys mewn unrhyw achos lle y mae hysbysiad adeiladu neu hysbysiad cychwynnol wedi'i roi i awdurdod lleol, neu lle y mae cynlluniau llawn wedi'u hadneuo gydag ef, cyn 13 Ionawr 2020 a naill ai bod y gwaith adeiladu y maent yn ymwneud ag ef:

(a) wedi dechrau cyn y diwrnod hwnnw; neu
(b) yn cael ei ddechrau o fewn y cyfnod o wyth wythnos sy'n dechrau ar y diwrnod hwnnw.

## RHAGOR O WYBODAETH

18. Gallwch weld Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2019 drwy ddilyn y ddolen hon:

http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2019/1499/contents/made

19. Gallwch weld Dogfen Gymeradwy B, Cyfrolau 1 a 2, ynghyd â'r holl ddiwygiadau a wnaed iddynt, drwy ddilyn y dolenni a ganlyn:

Approved Document B (Fire safety) Volume 1 – Dwellinghouses (2006 edition incorporating 2010, and 2016 amendments)

Approved Document B (Fire Safety) Volume 2 - Buildings other than dwellinghouses (2006 edition incorporating 2010, 2013 and 2016 amendments)

Amendment Slip - Amendments to Approved Documents A, B Vol. 1, B Vol. 2, C, D, E, F, G, H, J, K, L1A, L1B, L2A, L2B, M, N and P (2013)

Amendment Slip - Amendments to Approved Documents A, Approved Documents B Volume 2 and Approved Documents C (2017)

Amendment Slip - Amendments to AD B Vol 1, AD B Vol 2 and AD 7 (2020)

20. Gallwch weld Dogfen 7, ynghyd â'r diwygiadau a wnaed iddi, drwy ddilyn y dolenni a ganlyn:

Approved Document 7 (2013)

Amendment Slip - Amendments to AD B Vol 1, AD B Vol 2 and AD 7 (2020)

**Ymholiadau:**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y Cylchlythyr hwn, dylech eu cyfeirio at:

François Samuel, Rheoliadau Adeiladu, Llywodraeth Cymru, Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ.
Rhif ffôn: 03000 628232.
E-bost enquiries.brconstruction@llyw.cymru

Yn gywir,



**François Samuel Pennaeth Rheoliadau Adeiladu**

**ATODIAD A**

Mae'r tabl isod yn rhestru'r holl newidiadau a wnaed gan Reoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2019 i Reoliadau Adeiladu 2010:

| O.S.2010/2214 Rhif y Rheoliad | O.S.(2019/1499 (Cy.275)) Rhif y Rheoliad | Newid |
|---|---|---|
| 2(6) | 2(2) | Dehongli. Diffiniadau newydd o “wal allanol” ac “atodyn penodedig”. |
| 4(2) | 2(3) | Gofynion sy'n gysylltiedig â gwaith adeiladu. Mae’n egluro bod yn rhaid i waith hefyd gydymffurfio â rheoliad 7. |
| 5(k) | 2(4) | Ystyr newid defnydd sylweddol. Mae’n ychwanegu categori newydd o newid defnydd sylweddol i “adeilad perthnasol”. |
| 6 | 2(5) | Gofynion sy'n gysylltiedig â newid defnydd sylweddol. Mae’n ychwanegu gofynion newydd sy’n gysylltiedig â’r deunyddiau sy’n dod yn rhan o wal allanol neu atodyn penodedig pan fo newid defnydd sylweddol o dan reoliad 5(k). Mae’n esemptio rhannau penodol rhag y gofynion. |
| 7 | 2(6)(b) | Deunyddiau a chrefftwaith. Mae’n ychwanegu gofynion o ran deunyddiau sy'n dod yn rhan o wal allanol neu o atodyn penodedig. |
| 7 | 2(6)(c) | Deunyddiau a chrefftwaith. Mae’n esemptio rhannau penodol rhag y gofyniad newydd. |
| 7 | 2(6)(d) | Deunyddiau a chrefftwaith. Mae’n pennu'r mathau o adeiladau y mae’r gofyniad newydd yn gymwys iddynt. |
| 37A | 2(7) | Darparu systemau awtomatig ar gyfer llethu tân. Mae’n cywiro mân newidiadau. |

**ATODIAD B**

**Deddf Adeiladu 1984**

| **HYSBYSIAD CYMERADWYON DOGFENNAU SY'N RHOI ARWEINIAD YMARFEROL MEWN PERTHYNAS Â GOFYNION RHEOLIADAU ADEILADU 2010** | | |
|---|---|---|
| Mae Gweinidogion Cymru, wrth arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 6 o Ddeddf Adeiladu 1984, sydd bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o dan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau (Rhif 2) 2009 (OS 2009/3019), yn hysbysu eu bod wedi cymeradwyo'r dogfennau a'r diwygiadau a restrir isod er mwyn rhoi arweiniad ymarferol mewn perthynas â gofynion penodedig Rheoliadau Adeiladu 2010 (fel y'u diwygiwyd) yng Nghymru.<br><br>Mae'r gymeradwyaeth hon yn dod i rym fel y rhestrir yn y tabl isod. | | |
| **Dogfen Gymeradwy** | **Y gofynion yn y Rheoliadau Adeiladu y cymeradwyir y ddogfen mewn cysylltiad â nhw** | **Y dyddiad y bydd y gymeradwyaeth yn dod i rym** |
| Dogfen Gymeradwy B (Diogelwch Tân) Cyfrol 1 – Tai annedd (argraffiad 2006 sy'n cynnwys diwygiadau 2010, 2016 a 2019) | Rhan B, Atodlen 1; a Rheoliadau 5, 6 a 7 | Y dyddiad y cyhoeddir Cylchlythyr 003/2020 |
| Dogfen Gymeradwy B (Diogelwch Tân) Cyfrol 2 – Adeiladau ac eithrio tai annedd (argraffiad 2006 sy'n cynnwys diwygiadau 2010, 2016 a 2019) | Rhan B, Atodlen 1; a Rheoliadau 5, 6 a 7 | Y dyddiad y cyhoeddir Cylchlythyr 003/2020 |
| Slip Diwygio – Diwygiadau i Ddogfennau Cymeradwy A, B Cyfrol 1, B Cyfrol 2, C, D, E, F, G, H, J, K, L1A, L1B, L2A, L2B, M, N A P (2013) | Rhan B, Atodlen 1; a Rheoliadau 5, 6 a 7 | Y dyddiad y cyhoeddir Cylchlythyr 003/2020 |

| | | |
|---|---|---|
| Slip Diwygio – Diwygiadau i Ddogfennau Cymeradwy A, Dogfennau Cymeradwy B Cyfrol 2 a Dogfennau Cymeradwy C (2017) | Rhan B, Atodlen 1; a Rheoliadau 5, 6 a 7 | Y dyddiad y cyhoeddir Cylchlythyr 003/2020 |
| Slip Diwygio – Diwygiadau i AD B Cyfrol 1, AD B Cyfrol 2 ac AD 7 (2020) | Rhan B, Atodlen 1; a Rheoliadau 5, 6 a 7 | Y dyddiad y cyhoeddir Cylchlythyr 003/2020 ac eithrio mewn perthynas â gwaith a ddechreuwyd cyn 13/01/2020 neu mewn perthynas â gwaith y mae hysbysiad adeiladu neu hysbysiad cychwynnol wedi'i roi ar ei gyfer neu y mae cynlluniau llawn a rei gyfer wedi'u hadneuo cyn y dyddiad hwnnw ac ar yr amod bod y gwaith yn decrhau ymhen 8 wythnos i 13/01/2020. |
| Dogfen Gymeradwy 7 | Rheoliad 7 | Y dyddiad y cyhoeddir Cylchlythyr 003/2020 |
| Slip Diwygio – Diwygiadau i AD B Cyfrol 1, AD B Cyfrol 2 ac AD 7 (2020) | Rheoliad 7 | Y dyddiad y cyhoeddir Cylchlythyr 003/2020 ac eithrio mewn perthynas â gwaith a ddechreuwyd cyn 13/01/2020 neu mewn perthynas â gwaith y mae hysbysiad adeiladu neu hysbysiad cychwynnol wedi'i roi ar ei gyfer neu y mae cynlluniau llawn a rei gyfer wedi'u hadneuo cyn y dyddiad hwnnw ac ar yr amod bod y gwaith yn decrhau ymhen 8 wythnos i 13/01/2020. |